Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cronfa Ymddiriedolaeth Plant

## Cael eich arian

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales


2026

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Sut i gael eich arian




Ydych chi wedi cael eich geni rhwng **1 Medi 2002** a **2 Ionawr 2011**?



Os felly, **efallai** bod gennych chi **Gronfa Ymddiriedolaeth Plant** yn eich enw. Cyfrif cynilion ydy hyn i blant wrth iddyn nhw dyfu i fyny.



Os ydych chi yn 16 oed neu drosodd, rydych chi'n gallu penderfynu lle mae'r arian yma yn cael ei **fuddsoddi**.



**Buddsoddi** ydy rhoi arian yn rhywbeth i geisio gwneud rhagor o arian. Er enghraifft, cynilion, stociau a chyfranddaliadau.




Os ydych chi yn 18 oed neu drosodd, rydych chi'n gallu cael gafael ar yr arian.



Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yn y wefan yma: Oes Gen Ti Arian Yn Cuddio Mewn Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (meic.cymru)




Ac rydych chi'n gallu cael help ar y wefan yma: Find your lost Child Trust Fund account (sharefound.org)




I ddarganfod eich **Cronfa Ymddiriedolaeth Plant** fe fyddwch chi angen eich **Rhif Yswiriant Cenedlaethol**.

Os ydych chi angen help i ddarganfod hyn mae'r **Meic** yma yn gallu helpu.



Maen nhw'n gallu helpu hefyd os ydych chi'n poeni bydd rhywun efallai yn gofyn am arian o'ch **Cronfa Ymddiriedolaeth Plant**.




**Gwefan**: [meic.cymru/cy/cronfa-ymddiriedolaeth-plant](meic.cymru/cy/cronfa-ymddiriedolaeth-plant)

**Ffôn neu WhatsApp**: 080880 23456

**Testun**: 07943 114 449




Mae Meic ar agor o 8:00 yn y bore tan hanner nos. 7 diwrnod yr wythnos.



Mae **Meic** am ddim i'w ddefnyddio. Ac yn gyfrinachol.